## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 15 Mai 2002 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 4.45 pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd y Gweithwyr, Blaenafon |

## ADOLYGIAD PUM MLYNEDD CADW

### Diben

1. Rhoi cyfle i aelodau wneud sylwadau ar yr adroddiad interim drafft o adolygiad pum mlynedd Cadw.

### Crynodeb

2. Yn atodedig i'r papur hwn mae adroddiad interim drafft o adolygiad pum mlynedd Cadw sy'n dechrau gyda chrynodeb o ddwy dudalen o'r canfyddiadau a'r argymhellion.

### Y Cefndir

3. Roedd y Datganiad i'r Cyfarfod Llawn gan Edwina Hart ar 10 Mai 2000, ar y drefn ar gyfer adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrff tebyg eraill, yn cadarnhau ymrwymiad y Cabinet i barhau gyda'r drefn adolygiad pum mlynedd, ond mewn ffordd sy'n fwy agored nag yn y dyddiau cyn y Cynulliad. Fel un o swyddogion y Cynulliad sy'n gweithio y tu allan i Cadw, cynhyrchais yr adroddiad o'r adolygiad interim drafft sy'n atodedig.

### Materion i'w Hystyried

4. Mae'r adroddiad drafft yn gwneud yr argymhellion canlynol:

bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynhyrchu datganiad cenhadaeth tymor hir newydd i Cadw a fydd yn cael cymeradwyaeth y Cynulliad ar ôl ymgynghoriad eang;

bydd y broses o gynhyrchu datganiad cenhadaeth newydd a chynllun corfforaethol tair blynedd yn cynnwys cyflwyno cymysgedd newydd o ddangosyddion perfformiad a fydd wedi'u canolbwyntio'n llai ar fesur y broses ac yn cynnwys rhai ar y canlyniadau a geisiwyd ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru;

bydd Cadw'n ystyried yr adroddiad hwn a'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori fel mewnbwn i'w ddatblygiad polisi a rheolaeth;

bydd y swyddogaethau a gyflawnir gan Cadw ar hyn o bryd yn angenrheidiol;

na fydd Cadw'n uno â Chyngor Cefn Gwlad Cymru

na fydd Cadw'n uno ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;

bydd ystyriaeth sylweddol o fanteision ac anfanteision uno â'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru yn cael ei gohirio tan yr Adolygiad Pum Mlynedd cyfredol o'r Comisiwn Brenhinol;

bydd statws Cadw fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cael ei ddiystyru, o leiaf yn y tymor byr a chanolig;

na fydd yr opsiwn o droi **rhan** o Cadw yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cael ei ystyried ymhellach;

nad model y status quo (model sefydliad asiantaeth weithredol fel y mae ar hyn o bryd) yw'r model priodol yn y tymor canolig a hir;

dylid newid union statws Cadw fel sefydliad er mwyn ei alluogi'n well i ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n hyrwyddo themâu allweddol a phrif strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r union fodel sefydliadol fod yn un o'r canlynol:

a. Asiantaeth Weithredol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Bwrdd Polisi Gweinidogol

b. Is-adran(nau) polisi confensiynol o fewn Llywodraeth Cynulliad

Cymru. Os bydd yn un adran, rhan ohoni i gadw brand gwerthfawr Cadw fel ei theitl. Os bydd mwy nag un is-adran neu uned, galw un ohonynt yn Cadw; neu'n gymysgedd o is-adran gonfensiynol a fyddai'n arwain o ran polisi, gwaith achos statudol ac o ran cyngor ar strategaeth i Weinidogion ac eraill, ac asiantaeth weithredol a fyddai'n perthyn yn agos, o'r enw Cadw, a fyddai'n arwain o ran eiddo mewn gofal;

pa bynnag union fodel o ran strwythur sefydliadol sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer Cadw, dylai o leiaf rhan o'r sefydliad weithredu o dan y teitl "Cadw"; a

bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl cael cyngor gan Cadw, ac ar ôl ymgynghori â Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a chyfranddeiliaid allanol, yn pennu ei flaenoriaethau strategol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

**Themâu Trawsbynciol**

5. Roedd cylchoedd gorchwyl yr adolygiadau yn cynnwys cyfeiriad at dair thema allweddol y Cynulliad, sef cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd. Caiff themâu allweddol cydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd eu hadlewyrchu mewn materion yn yr adroddiad drafft. Mae'r deunydd sy'n arwain at argymhelliad ar gyfer datganiad cenhadaeth newydd yn awgrymu y dylid cynnwys y tair thema allweddol yn agored yn y datganiad cenhadaeth newydd.

**Y Camau Nesaf**

6. Bydd ystyried sylwadau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn dylanwadu ar fersiwn terfynol yr adroddiad interim a hefyd y cynlluniau ar gyfer cam 2 yr adolygiad. Yn ogystal, rwyf hefyd wedi dechrau ar y gwaith ar yr adolygiad pum mlynedd o'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru (o fewn y portffolio Diwylliant), ac mae Sue Essex a Jenny Randerson wedi gofyn i mi baratoi papur ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Diwylliant ar faterion cysylltiedig sy'n deillio o waith ar y ddau adolygiad.

**Camau i'w Cymryd**

7. Gwahoddir aelodau'r pwyllgor i roi eu sylwadau ar yr adroddiad interim drafft.

**MARTIN ROLPH**